Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
62/2015

# Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cyflwyniad a Nodau'r Adroddiad

1.1 Mae cyrhaeddiad addysgol isel a rhagolygon plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi dod yn fater o bryder rhyngwladol eang (Berridge 2012; Jackson a Höjer 2013). Yn y pedair gwlad yn y DU, gwyddwn nad yw plant dan ofal cyhoeddus, ar gyfartaledd, yn cyflawni cystal yn addysgol â'u cyfoedion nad ydynt yn derbyn gofal (gweler Jackson 1987; 2010). Mae'r bwlch hwn yn lledu ar draws pob Cyfnod Allweddol addysgol ac mewn addysg uwch (Stein 2012). O ganlyniad, dros y degawdau diwethaf yng Nghymru a Lloegr, bu dwysâd mewn camau gweithredu deddfwriaethol a datblygu polisi gyda'r nod o wella deilliannau addysgol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (gweler Deddf Plant 1989; Deddf Plant 2004; Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007). Mae'r ymgyrch polisi hon wedi canolbwyntio'n benodol ar wella'r berthynas waith rhwng gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr a gwasanaethau lleol er mwyn culhau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a'u cyfoedion nad ydynt yn derbyn gofal.

1.2 Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei pholisïau a'i harweiniad ei hun ar gyfer awdurdodau lleol, sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r mater o 'dangyflawni' ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae hyn wedi arwain at sawl math o ymyrraeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn addysg orfodol. Mae'r rhain yn cynnwys: sefydlu cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol i fonitro cynnydd; y gweithiwr cymorth addysg plant sy'n derbyn gofal i ddarparu cymorth dal i fyny; athrawon penodedig mewn ysgolion i gynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal; a'r Cynllun Addysg Personol (gweler LlCC 2007). Fodd bynnag, er gwaethaf y darpariaethau polisi hyn,

nid yw cyrhaeddiad addysgol cyffredinol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cynyddu'n amlwg hyd yn hyn. Mae'r diffyg cynnydd nodedig yn y maes hwn, er gwaethaf ymyriadau polisi, yn amlygu'r heriau o ran mynd i'r afael â chyflawniad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymhlethdod y broblem.

1.3 Ym mis Rhagfyr 2014, gwahoddodd Llywodraeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, dendrau ar gyfer astudiaeth i archwilio profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd tîm amlddisgyblaeth o ymchwilwyr yng Nghanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) Prifysgol Caerdydd, dan arweiniad Dr Dawn Mannay o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, i ymgymryd â'r prosiect ymchwil ym mis Ionawr 2015. Cynhaliwyd y prosiect mewn partneriaeth â Voices from Care Cymru, y Rhwydwaith Maethu a Spice Innovations.

1.4 Cynhaliwyd yr astudiaeth i ymateb i ddau amcan allweddol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

- Amcan 1: Cynnal astudiaeth ymchwil ansoddol fanwl gyda phlant sy'n derbyn gofal, i roi mewnwelediad i'w profiad o addysg a'u safbwyntiau ynghylch yr hyn y gellid ei wneud i'w gwella.
- Amcan 2: Coladu ac adrodd ar ddata a llenyddiaeth berthnasol.

## 2. Methodoleg

2.1 Yn fras, rhannwyd y prosiect hwn yn ddau gam. Roedd Cam 1 yn mynnu dulliau ymchwil wrth y ddesg i adolygu a choladu data presennol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac addysg. Roedd Cam 2 yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal trwy gyfweliadau neu grwpiau ffocws.

2.2 Mae'r prosiect yn defnyddio dulliau cymysg ac ystod eang o ddata meintiol ac ansoddol o gynhyrchu data cynradd a data gweinyddol ac academaidd presennol.

2.3 Trefnwyd cynllun y prosiect ar ddwy lefel: ar lefel genedlaethol ac ar lefel plant a phobl ifanc unigol sy'n derbyn gofal.

2.4 Mae prif nodweddion cynllun y prosiect yn cynnwys:

- Coladu'r ystadegau disgrifiadol sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr yn ymwneud â chyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad byr a chanolbwyntiedig o'r hyn sy'n hysbys am gyflawniad, cyrhaeddiad a dyheadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Adolygiad systematig yn adrodd ar hapbrofion gyda rheolydd neu ymchwil lled-arbrofol yn arfarnu ymyriadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sydd â phrofiad blaenorol o'r system ofal.
- Cyfweliadau'n defnyddio dulliau creadigol fel rhan o bedwar diwrnod o ddigwyddiadau a drefnwyd â chymorth gan y Rhwydwaith Maethu. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad â phlant ysgolion cynradd yn ne Cymru a dau ddigwyddiad â phlant ysgolion uwchradd (un yng ngogledd Cymru ac un yn ne Cymru). Cyfwelwyd â chyfanswm o 39 o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ar draws yr ystod oedran yn y digwyddiadau hyn.

- Pedair set o ddigwyddiadau grwpiau ffocws â phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd wedi gadael gofal rhwng 16 a 25 oed, a hwyluswyd gan ymchwilwyr cyfoedion a recriwtiwyd trwy Voices from Care Cymru. Cynhaliwyd tair sesiwn yn ne Cymru ac un yng ngogledd Cymru. Cynhaliwyd cyfanswm o chwe grŵp ffocws oddi mewn i'r digwyddiadau hyn â 26 o gyfranogwyr ar draws yr ystod oedran.
- Dau gyfweliad unigol ag ymadawyr gofal mewn addysg uwch.

2.5 Trawsgrifiwyd holl ddata'r cyfweliadau air am air a'i ddadansoddi gan ddefnyddio fframwaith thematig, a oedd yn galluogi codau, categorïau a themâu i ddod i'r amlwg o'r data empirig a gynhyrchwyd gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

## 3. Canfyddiadau allweddol

3.1 Roedd y dadansoddiad o'r ystadegau disgrifiadol sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr yn ymwneud â chyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn dangos bwlch treiddiol rhwng cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai nad ydynt yn derbyn gofal ym mhob Cyfnod Allweddol addysgol.

3.2 Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth yn awgrymu y gall profiadau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal niweidio eu cyrhaeddiad a'u cyflawniad mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys ansefydlogrwydd lleoliadau ac ysgolion, diffyg cymorth digonol ag addysg, gofalwyr nad ydynt yn barod i gynorthwyo â dysgu ac ni ddisgwylir iddynt wneud hynny, diffyg cymorth ag iechyd meddwl neu gorfforol a lles, barn besimistaidd gweithwyr proffesiynol allweddol ynghylch potensial addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a diffyg cyfathrebu rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr addysg.

3.3 Yr adolygiad systematig yn adrodd ar arfarniadau o ymyriadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yw'r un mwyaf cynhwysfawr hyd yn hyn. Ar draws yr astudiaethau, mapiwyd deilliannau addysgol i'r meysydd allweddol canlynol: sgiliau academaidd; cyflawniad academaidd a chwblhau graddau; cwblhau gwaith cartref; presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ac ymadael; nifer y lleoliadau ysgol; perthnasoedd yn yr ysgol; ymddygiad yn yr ysgol. Roedd y modd y cynhaliwyd arfarniadau'n wael, ac roedd y mwyafrif o'r astudiaethau'n dangos risg uchel o dueddiad a meintiau samplau annigonol. Felly, rhaid i ni ddod i'r casgliad bod y sail dystiolaeth yn rhy gyfyngedig i argymell buddsoddi mewn unrhyw ymyriadau sefydledig.

3.4 Roedd mwyafrif y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal y gwnaethom gyfweld â nhw yn llawn dyhead ac roedd ganddynt lawer o syniadau am yrfaoedd a chyflogaeth. Fodd bynnag, i rai cyfranogwyr, roedd datblygu a gwireddu uchelgeisiau mewn perygl oherwydd problemau emosiynol heb eu datrys, cyfleoedd ac adnoddau cyfyngedig, a pherthynas ansefydlog neu anghefnogol â gofalwyr, athrawon a gweithwyr cymdeithasol.

3.5 Trafododd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal eu profiadau o symud lleoliadau a symud ysgolion, sydd wedi amharu ar eu harferion ac wedi peri perthynas anghyson â'u teuluoedd, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'u bywydau, a'u cyfoedion.

3.6 Hyd yn oed pan roedd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi gallu symud lleoliadau ac aros yn yr un ysgol, roedd pellter teithio yn aml yn cyfyngu ar eu gallu i fanteisio ar glybiau ar ôl ysgol, digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol â'u cyfoedion.

3.7 Trafododd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yr amhariadau ar eu diwrnod ar ffurf

ymweliadau â'r ysgol gan weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, a chyfarfodydd a drefnwyd yn ystod oriau ysgol ac ar dir yr ysgol.

3.8 Cydnabuwyd bod diffyg adnoddau a'r gallu i fanteisio ar gyllid ar gyfer offer addysgol, yn enwedig TGCh, yn rhwystr allweddol.

3.9 Trafododd pobl ifanc gymwysterau addysgol gofalwyr maeth, ac roeddent o'r farn y dylent feddu ar set o sgiliau sylfaenol i'w galluogi i gynorthwyo addysg plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Manylodd rhai pobl ifanc ar ddiffyg cymorth gan ofalwyr maeth ac achosion lle cawsant eu rhoi mewn sefyllfa lle bu raid iddynt helpu gofalwyr maeth â'u llythrennedd.

3.10 Dangosodd y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ymwybyddiaeth o'r gwarthnodau a ddaw gyda'u statws o fod yn 'derbyn gofal'. Wrth iddynt dyfu'n hŷn, deallwyd yn gynyddol bod y statws hwn yn golygu bod pobl eraill (cyfoedion ac oedolion fel ei gilydd) yn ystyried eu bod yn broblem, yn ofidus, yn wahanol ac yn annhebygol o gyflawni llawer.

3.11 Roedd lleoliadau gofal ac ysgol sefydlog a pherthnasoedd ac arferion cyson yn agweddau allweddol ar alluogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gyfranogi'n llawn mewn dysgu ac ym mywyd yr ysgol a'r coleg. Yn yr un modd, roedd cymorth cyfartal a theg a'r gallu i fanteisio ar adnoddau a chyfleoedd yn allweddol hefyd.

## 4. Casgliadau/Argymhellion

4.1 Arweiniodd coladu ystadegau disgrifiadol, adolygu llenyddiaeth, a chyfraniadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal at lunio arfarniadau, syniadau ac awgrymiadau ar gyfer polisi ac arfer, sydd wedi llywio'r argymhellion.

4.2 Mae'r canfyddiadau'n amlinellu 17 o argymhellion allweddol. Mae'r argymhellion hyn yn berthnasol i nifer o randdeiliaid ac yn llywio'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect.

- Argymhelliad 1: Mae'r sail dystiolaeth ar gyfer ymyriadau addysgol yn gyfyngedig o hyd, a byddwn yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo ac yn buddsoddi mewn hapbrofion gyda rheolydd i lunio arfarniad gwyddonol cadarn. Nid oes angen i ymyriadau sy'n destun arfarniad fod yn newydd, o reidrwydd, a gallant gwmpasu dulliau ac arferion presennol.
- Argymhelliad 2: Dylai addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gael ei blaenoriaethu a dylai'r trefniadau ar gyfer symud ysgolion gael eu hwyluso ynghynt.
- Argymhelliad 3: Ni ddylai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gael eu hamlygu i'r anghydfodau cyffredin ynghylch cyllid a chyfrifoldeb.
- Argymhelliad 4: Dylai penderfyniadau ynghylch aros yn yr un ysgol a chymudo neu symud i ysgol newydd o ganlyniad i leoliad gael eu trafod â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, y dylid ystyried eu barn a gwneud penderfyniadau fesul achos unigol.
- Argymhelliad 5: Mae angen mwy o ffocws ar bwysigrwydd profiad gofalwyr maeth eu hunain o addysg, a dylid ystyried darparu cyfleoedd i ofalwyr maeth ennill cymwysterau addysgol ychwanegol.
- Argymhelliad 6: Dylai hyfforddiant i ofalwyr maeth gynnwys addysgu penodol ar sut i gynorthwyo plant â'u gwaith cartref, darparu amser pwrpasol i gwblhau gweithgareddau

addysgol cadarnhaol gyda phlant, yn ogystal â phwysigrwydd mynychu cyfarfodydd ysgol.

- Argymhelliad 7: Dylai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gael llysgennad ar gyfer eu haddysg, sydd â'r grym i ddwyn asiantaethau i gyfrif, sy'n gweithio'n annibynnol ar yr awdurdod lleol o bosibl.
- Argymhelliad 8: Dylai pob cyfarfod ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (am resymau yn ymwneud â'u hamgylchiadau gofal) gael ei gynnal y tu allan i oriau ysgol.
- Argymhelliad 9: Dylai ymdrechion i leihau effaith amgylchiadau cartref aflonyddgar ar ddysgu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ganolbwyntio ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, cymorth un-i-un ac eiriolwyr.
- Argymhelliad 10: Dylid ystyried prosiectau sy'n gweithio ar gynyddu dyheadau a mentora (gan unigolion sydd â phrofiad o ofal, o bosibl) fel math o gymorth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Argymhelliad 11: Dylid ystyried hyfforddiant i addysgwyr, gwasanaethau gyrfaoedd a gweithwyr cymdeithasol o ran gwrthwynebu'r tueddfryd o gyrhaeddiad isel a disgwyliadau gyrfa isel i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Argymhelliad 12: Mae angen i gyfathrebu rhwng gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr addysg fod yn brydlon ac yn gynhwysfawr er mwyn osgoi oedi wrth ddarparu cymorth effeithiol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Argymhelliad 13: Dylai anghenion, gofynion a safbwyntiau unigol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gael eu hystyried pan drefnir i leoedd fod ar gael iddynt ar ymyriadau a rhaglenni.
- Argymhelliad 14: Dylai rhaglenni ymyrraeth fod â chynlluniau cynhwysfawr i gyrraedd eu man gorffen er mwyn lleihau unrhyw ofid i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Argymhelliad 15: Dylid ystyried rhaglenni cyffredinol sydd ar agor i bob plentyn ac unigolyn ifanc yn hytrach na'u cyfyngu i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, oherwydd gallant greu llai o stigma a bod yn fwy buddiol i ddemograffig ehangach.
- Argymhelliad 16: Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gyfarfod â rhai eraill sy'n derbyn gofal, a dylid cynnal y cyfleoedd hyn yn rheolaidd. Mae darpariaeth yn y maes hwn ar gael ar hyn o bryd gan y Rhwydwaith Maethu a Voices from Care Cymru, a dylid ystyried y rhain fel modelau arfer gorau i ddatblygu cymorth pellach i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Argymhelliad 17: Dylai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal allu manteisio ar gyfrifiaduron ac ystod eang o ddeunyddiau darllen.

## Cyfeiriadau

Berridge, D. 2012. Educating young people in care: What have we learned? *Children and Youth Services Review* 34(6), pp. 1171-1175.

Jackson, S. 1987.The education of children in care. Bristol Papers in Applied Social Studies No 1.

University of Bristol.

Jackson, S. 2010. Reconnecting care and education: from the Children Act 1989 to Care Matters. *Journal of Children's Services*, 5(3), pp.48 – 60.

Jackson, S. and Höjer, I. 2013. Prioritising education for children looked after away from home. *European Journal of Social Work*, 16(1), pp. 1-5.

Stein, M. 2012. *Young people leaving care: supporting pathways to adulthood.* London: Jessica Kingsley.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2007. *Tuag at fywyd sefydlog a dyfodol gwell. Llywodraeth Cynulliad Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/caecd/publications/110317stablecy.pdf [Cyrchwyd: 31 Awst 2015].

Awduron yr Adroddiad: Dawn Mannay, Eleanor Staples, Sophie Hallett, Louise Roberts, Alyson Rees, Rhiannon Evans a Darren Andrews

Adroddiad Ymchwil Llawn: Mannay, D., Staples, E., Hallett, S., Roberts, L., Rees, A., Evans, R. ac Andrews, D. (2015). *Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.* Ar gael yn:

http://gov.wales/statistics-and-research/understanding-educational-experiences-opinions-attainment-achievement-aspirations-looked-after-children-wales/?lang=en

**Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru, o reidrwydd.**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Launa Anderson
Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5274
Ebost: launa.anderson@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-5119-3
© Hawlfraint y Goron 2015
11 Tachwedd 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, oni ddywed yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/